Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coedwig **Clocaenog** Forest

# Pincyn Llys

## Coedwig **Clocaenog** Forest

### Croeso i Goedwig Clocaenog

**Croeso i'r goedwig enfawr hon sydd yr un maint â 10,000 o gaeau rygbi (100 cilometr sgwâr). Mae wedi'i lleoli ym mhen deheuol gweunydd Hiraethog, a chafodd ei phlannu yn y 1930au. Er ei bod yn goedwig weithredol, mae hi bellach yn gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, yn ogystal â bod yn lle y gall pobl ei fwynhau.**

Wyddech chi fod gan Glocaenog fwy o wiwerod coch nag unrhyw goedwig arall yng Nghymru? Ond rhaid ichi fod yn lwcus iawn i weld un, oherwydd maent ar wasgar dros ardal eang ac yn greaduriaid eithaf swil.

Mae grugieir duon prin, sy'n enwog am eu campau carwriaethol, yn byw ar gyrion y goedwig. Mae gweithio'n agos gyda'r RSPB wedi arwain at gynnydd o 88% yn nifer yr adar.

### Welcome to Clocaenog Forest

**Welcome to this huge forest which is the size of 10,000 rugby pitches (100km²). It lies at the southern end of Hiraethog Moor and was first planted in the 1930s. Although still a working forest, it is now a home for a wide variety of wildlife, as well as for people to enjoy.**

Did you know that Clocaenog has more red squirrels than any forest in Wales? You will be very lucky to see one as they range over large areas and are quite secretive.

Rare black grouse, known for their flamboyant courtship display, known as a 'lek', live on the forest edge. Working closely with the RSPB has led to an 88% increase in bird numbers.




## Croeso i Pincyn Llys

**Croeso i Pincyn Llys yng Nghoedwig Clocaenog.**

Bydd esgyniad esmwyth yn mynd â chi at Gofeb Pincyn Llys, lle'r adeiladodd yr Arglwydd Bagot domen o gerrig ym 1830, ar safle carnedd yn ôl pob tebyg. Mae'n werth darllen yr holl arysgrifau ar y gofeb. Dyma'r lle uchaf yn yr ardal a cheir golygfeydd gwych i'r dwyrain ar draws Dyffryn Clwyd.

## Welcome to Pincyn Llys

**Welcome to Pincyn Llys in Clocaenog Forest.**

A gentle climb takes you to the Pincyn Llys Monument. Lord Bagot 'erected this pile of stones in 1830'. It commemorates the planting of a conifer forest, later cut down during the First World War to provide wooden props for the trenches and coal mines. In the 1930s it was replanted by the Forestry Commission.






### Llwybr **Pincyn** Walk

Dilynwch yr arwyddbyst gwyrdd
Follow the green waymarker symbol

**Hawdd**
Pellter: 1 milltir/1.5km
Amser: 30 munud
Dringo: 50m

**Easy**
Distance: 1 mile/1.5km
Time: 30 minutes
Climb: 50m

**UCHAFBWYNTIAU:** Mae'n werth darllen pob arysgrif ar y gofeb. Hwn yw'r man uchaf yn y goedwig (1358troedfedd/414m) a cheir golygfeydd ysblennydd tua'r dwyrain ar draws Dyffryn Clwyd.

**HIGHLIGHTS:** The full inscriptions on the monument are worth a read. This is the highest point in the forest (1358ft/414m) and there are great views eastwards across the Vale of Clwyd.


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100019741. 2016
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100019741. 2016


parcio / parking
llwybrau cerdded / walking trails


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000



Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government